



CYSWLLT Y PRIF WEITHREDWR

Annwyl gydweithwyr,

14/12/2022

Yng ngoleuni'r newyddion am gynnydd mewn heintiau bacterol streptococcal A (Strep A) yng Nghymru a ledled y DU, rydym yn gweithio'n agos gydag lechyd Cyhoeddus Cymru, Awdurdodau Lleol, a phartneriaid eraill i roi sicrwydd i rieni a theuluoedd am y cymorth a'r wybodaeth sydd ar gael iddyn nhw. Rydym hefyd wedi bod yn gweithio gyda phartneriaid i helpu i leihau'r effaith ar ein gwasanaethau gofal sylfaenol, cymunedol ac eilaidd rheng flaen, a chefnogi cydweithwyr gyda'r galw ychwanegol ar wasanaethau.

Gall streptococcus Grŵp A (GAS) achosi amrywiaeth o heintiau, sy'n ysgafn yn y rhan fwyaf o achosion. Un o'r heintiau sy'n gofyn am sylw pellach yw'r dwymyn goch. Mewn achosion prin, gall heintiau o'r fath arwain at haint streptococcal grŵp A ymledol (iGAS). Mae lechyd Cyhoeddus Cymru wedi cadarnhau bod achosion o IGAS yn parhau i fod yn brin yng Nghymru, a bod gan blant risg isel iawn o ddal y clefyd. [I gael rhagor o wybodaeth, gan gynnwys cwestiynau cyffredin, ewch i wefan lechyd Cyhoeddus Cymru.](#)

Mae cyngor lleol ar gael hefyd i helpu i gefnogi rhieni a theuluoedd trwy ddarparu arweiniad ar y symptomau i chwilio amdanynt a phryd i geisio cyngor meddygol brys. [Os ydych yn pryderu am Strep A ewch i wefan y Bwrdd lechyd am y wybodaeth ddiweddaraf.](#)

Byddwch yn ymwybodol bod feirysau anadlol gan gynnwys COVID-19, y fflw ac RSV, yn parhau i gylchredeg yn ein cymunedau ac yn yr ysbytai. Er mwyn helpu i gadw cleifion, cydweithwyr ac ymwelwyr yn ddiogel ac atal heintiau rhag lledaenu, rydym yn eich annog yn gryf i wisgo gorchuddion wyneb ar draws lleoliadau ein hysbytai.

Mewn ardaloedd clinigol a lle mae cydweithwyr yn wynebu cleifion, mae'n ofynnol i gydweithwyr wisgo masgiau bob amser. Mae'r Bwrdd lechyd yn gorchymyn y cyngor hwn i helpu i atal lledaeniad feirysau anadlol yn ystod misoedd y gaeaf er mwyn helpu i ddiogelu cleifion, cydweithwyr ac ymwelwyr ac i gynnal parhad busnes.

Hoffem hefyd atgoffa cleifion ac ymwelwyr o bwysigrwydd gwisgo gorchudd wyneb wrth fynychu safleoedd.

Byddwn yn parhau i fonitro nifer yr achosion o gyflyrau anadlol yn y gymuned ac yn adolygu ein dull gweithredu dros gyfnod y gaeaf. Diolch yn fawr am eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad parhaus.

Pedair fuddugoliaeth yng Ngwobrau Arloesi mewn Gofal Iechyd 2022

Mae staff o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi cael eu cydnabod am eu gwaith pwysig ac arloesol yng Ngwobrau Arloesi mewn Gofal Iechyd eleni.



Tîm Model Adsefydlu BIP Caerdydd a'r Fro oedd enillwyr cyffredinol y noson, a gwnaethant hefyd ennill y wobwr am Ragoriaeth mewn Adsefydlu. Mae'r model a ddatblygwyd gan y tîm yn canolbwyntio ar adferiad, gan fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd trwy wella iechyd a chefnogi hunanreolaeth.

Ymhlith yr enillwyr eraill ar y noson roedd Orla Adams, Arweinydd Deieteg ar gyfer Rheoli Pwysau Mamol. Enillodd Orla y Wobr am Wella Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd. Mae'r prosiect arloesol yn canolbwyntio ar sicrhau bod menywod sydd â BMI >40 kg/m2 yn magu cyn lleied o bwysau â phosibl yn ystod eu beichiogrwydd, a chynyddu ymgysylltiad menywod â'r llwybr rheoli pwysau ôl-enedigol,

gan leihau'r risg i'r fam a'r babi.

Dyfarnwyd Gweithiwr Proffesiynol Perthynol i Iechyd y Flwyddyn i Judyth Jenkins, sydd bellach wedi ymddeol fel Pennaeth Gwasanaethau Maeth a Deieteg yn y Bwrdd Iechyd. Dangosodd Judyth arweinyddiaeth ysbrydoledig trwy gydol ei gwasanaeth, gan hyd yn oed ohirio cynlluniau i ymddeol yn 2020 i barhau i gefnogi'r GIG yn ystod y pandemig. Mae hi wedi gweithio'n ddiflino ac yn angerddol yn eiriol dros rôl maeth wrth wella iechyd a lles y boblogaeth.

Da iawn i bawb sy'n ymwneud â'r meysydd gwaith hyn.

Llwyddiant yn y Gwobrau Optegwyr blynyddol

Yn ddiweddar derbyniodd Canolfan Gofal Llygaid Prifysgol GIG Cymru wobwr fawreddog y Gwasanaeth Optegol Uwch yng Ngwobrau'r Optegwyr eleni.



Enillwyd y wobwr, a oedd yn ceisio nodi canolfan neu bractis sy'n cynnig gwasanaethau a gofal ychwanegol rhagorol yn y gymuned, gan ein timau am y gwaith a wnaed i wella mynediad at ofal llygaid a chefnogi adferiad gwasanaethau i lefelau cyn y pandemig.

Wedi'i sefydlu mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd, mae'r Ganolfan yn galluogi cleifion â glawcoma a chyflyrau retina meddygol i gael eu rheoli'n annibynnol gan optometryddion dan oruchwyliaeth optometryddion arbenigol profiadol a chymwys. Llongyfarchiadau i'r tîm ar y gamp wych hon.

Cymryd rhan yn yr arolwg Gofalu am Ofalwyr

Os ydych yn ofalwr di-dâl neu'n gweithio i sefydliad sy'n darparu neu'n cyfeirio at wasanaethau seibiant, a fyddech cystal â threulio pum munud i gwblhau'r arolwg 'Gofalu am Ofalwyr', gyda'r nod o ddysgu mwy am yr opsiynau seibiant sydd ar gael yng Nghaerdydd.

Roedd Versh Sood, Rheolwr Gwella a Datblygu Dementia Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro, yn bresennol yn y lansiad yr wythnos hon. Mae'r arolwg bellach ar agor ar gyfer ymatebion a bydd yn cau ar 8 Ionawr 2023.

Bydd copïau papur o'r ymgynghoriad ar gael mewn Hybiau Cymunedol a lleoliadau cymunedol eraill. Os oes angen copi papur arnoch, cysylltwch ag agefriendly@caerdydd.gov.uk a gellir eu hanfon atoch. Fel arall, [gellir cwblhau'r arolwg Gofalu am Ofalwyr ar-lein.](#)

Rhannwch yr arolwg gydag unrhyw un y credwch fydd yn gallu helpu.

Adnewyddu'r Gwasanaeth Iechyd a Lles Pobl

Yn ddiweddar mae Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro wedi bod yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Iechyd a Lles Pobl yn Ysbyty Athrofaol Cymru i roi gwedd newydd sbon i'r adran. Roedd mawr angen y gweddnewid, felly rhoddwyd cot o baent i'r waliau, a gosodwyd lloriau newydd i baratoi ar gyfer amrywiaeth o finylau a fydd yn ychwanegu lliw ac yn bywiogi'r ardal. Roedd yr elusen hefyd yn gallu darparu dodrefn newydd ar ffurf cadeiriau, soffas, a byrddau coffi.

[Dysgwch fwy am y gwaith gwella a gefnogwyd gan Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro.](#)

